
Bob mis byddwn yn canolbwyntio ar awdur ysbrydoledig sy'n byw yng Nghymru neu'n ysgrifennu am Gymru! Cewch gyflwyniad i'w llyfr diweddaraf, beth sy'n eu hysbrydoli i ysgrifennu, ac unrhyw gyngor sydd ganddynt i ysgrifenwyr ifanc!

# Dod i adnabod




# Graham Wynne Edwards

## Crynodeb:

O'r adeg y glaniodd y fintai gyntaf o Gymry ym Mhorth Madryn ym 1865, gweithredodd Richard Jones Berwyn fel un o brif arweinwyr y Wladfa ym Mhatagonia. Bu'n gofnodwr arbennig; aeth ymlaen i fod yn grwner, harbwr feistr, rheolwr yr orsaf dywydd ac yn bostfeistr am dros dri deg o flynyddoedd. Bu hefyd yn athro ac yn gyhoeddwr llyfrau, ac agorodd felin a siop lyfrau ac offer ysgrifennu, y gyntaf o'i math yn y Wladfa. Yn wir, gweithiodd yn ddiflino i sicrhau ffyniant yr ymfudwyr cyntaf. Eto, ychydig o sylw a gafodd yn y croniclau hanes.

'Diolch am gofio un o gymwynaswyr mawr y Wladfa.' – Robin Gwyndaf

'Dyma'r drydedd gyfrol o gyfres: LLYFRAU HanesByw



## Bywgraffiad

Dechreuodd Graham Wynne Edwards, yr awdur, ymddiddori yn hanes Berwyn o ddifri pan sylweddolodd fod y dyn a anwyd yng Nglyndyfrdwy wedi'i fagu yn Nyffryn Ceiriog, fel yntau. Teimlodd nad oedd digon o sylw wedi ei roi iddo yn ardal ei febyd, beth bynnag am drwy weddill Cymru a'r Wladfa.

**Dywed ychydig am *Richard Jones Berwyn*, o ble ddaeth yr ysbrydoliaeth?**


Rwyf wedi ymddiddori yn stori'r Cymry'n gadael am Batagonia ers blynyddoedd lawer. Mae'n stori fawr ac nid gor-ddweud fyddai honni ei bod yn un o storïau mwyaf y byd. Er gwaethaf hyn, rhaid cyfaddef, nad oeddwn yn gwybod rhyw lawer am Berwyn tan Hydref 2017, pan ddaeth yr Athro Bill Jones, o Brifysgol Caerdydd i Ddyffryn Ceiriog i ddarlithio ar ei fywyd. Mae'n gywilyddus o beth, ond nid oeddwn wedi sylweddoli fod Berwyn wedi'i fagu rhyw dair milltir o fy nghartref i. Wedi gwrando ar y ddarlith, es ati i ddysgu mwy am y dyn rhyfeddol 'ma, ac wedi casglu swp o wybodaeth amdano'n weddol sydyn, penderfynais roi cynnig ar siarad efo cymdeithasau hanes, a chymdeithasau Cymraeg - unrhyw un oedd eisiau siaradwr gwadd, a dweud y gwir. Erbyn hyn, 'rwyf wedi siarad efo dros dri deg o gymdeithasau a chlybiau am stori Berwyn a chefais y fraint o gyflwyno dwy noson amdano yn y Wladfa yn 2023. Am anrhydedd, a rhai o'i ddisgynyddion yn y gynulleidfa! Mae hi wedi troi'n hobi pleserus iawn ac 'rwyf wedi llwyddo i godi tipyn o arian i Ysgol y Cwm, Trevelin, Patagonia yr un pryd...

**Beth yw eich hoff genres darllen, a pha lyfrau yr ydych yn darllen ar hyn o bryd?**

Rwyf yn mwynhau darllen hunangofiannau, yn arbennig o'r byd chwaraeon, unrhyw lyfr hanes a storïau gwir. Am fy mod yn mwynhau traddodi cyflwyniadau ar Batagonia gymaint, yn aml iawn byddaf yn gwneud mwy o waith ymchwil tuag y cyflwyniad nesaf. Ar hyn o bryd, 'rwyf yn dysgu mwy am daith y Rifleros a siwrnai rhai o'r teuluoedd i Gwm Hyfryd ym 1885 ac yn darllen llyfr bendigedig o'r enw *Rocky Trip* gan Sergio Sepiurka a Jorge Miglioli.

**Pa brofiadau o lyfrgelloedd sydd wedi dylanwadu arnoch yn ystod eich bywyd?**

Rwyf wastad wedi mwynhau'r awyrgylch mewn llyfrgell. Y llonydd, yr awyrgylch o ddysgu a'r cyfle i ymgolli mewn llyfr. Mae amser yn hedfan wrth ymlacio ac mae'r amgylchfyd yn hyfryd bob tro. Wrth gwrs, yn ystod cyfnod fy ngwaith ymchwil at y gyfrol, es i'r llyfrgell yn aml ac mae'r adnoddau sydd ar gael yn ardderchog.



carreg-gwalch.cymru

Llyfrgelloedd Cymru
Cael mwy o'ch llyfrgell

... mwy C&A ar wefan llyfrgelloedd.cymru